

W411.01 PAM DEFNYDDIO YCHWANEGYN?

Cyflwyniad

Gwaith ychwanegyn silwair yw hyrwyddo eplesiad cyflym a sefydlog er cadw cymaint â phosib o'r deunydd sych ac ansawdd maeth y cnwd a silweiriwyd. Mae ystod eang o gynhyrchion ar gael, i gyd gyda chost ariannol. Bydd y daflen wybodaeth hon yn eich helpu i benderfynu os dylech fuddsoddi mewn ychwanegyn, a sut i ddewis un sy'n iawn i'r cnwd ar eich fferm chi.

I gael y budd mwyaf o ychwanegyn mae'n hanfodol eich bod yn rhoi sylw i fanylion agweddau cynaeafu silwair o'r dyddiad torri i'w fyrnu, ynghyd â rheoli silwair cladd a'i borthi allan.

Ydw i angen ychwanegyn?

Y nod yw gwella ansawdd silwair, i gynyddu pwysau byw anifail neu i gynhyrchu llaeth.

Er hynny, ystyriwch -

- A yw'r cynnydd yn werth mwy na'r gost o ddefnyddio'r ychwanegyn?
- A yw'r silwair i besgi gwartheg neu wartheg llaeth, neu i wartheg sugno neu wartheg cadw?

Mae hi'n bwysig fod ansawdd y silwair yn addas i'r math o dda byw. Cymharwch gost porthiant neu fwyd arall; gallai ychwanegyn sy'n costio £1/tunnell i'w roi ar 1500 tonnall o wair, brynu 16 tonnall o wenith wedi ei drin am £95/ tonnall

Pam defnyddio ychwanegyn?

- I leihau silwair a ddifethir oherwydd gwres ac awyr ar ôl agor y gladdfa e.e. mae perygl i silwair India corn lwydo a chreu tocsinau sy'n lleihau'r dogn a gymerir - yn arbennig o bwysig i silwair sych.
- I leihau elifiant - mae ychwanegion penodol ar gael.
- I wneud silwair da yn well e.e. mae brechlynnau yn helpu i gadw mwy o'r proteinau toddadwy a'r siwgr fydd ar gael i'r anifail, drwy sicrhau eplesiad cyflym ac effeithiol.
- Mae brechlynnau yn cynyddu'r protein sydd ar gael i ficrobau anifail sy'n cnoi ei gil, drwy leihau ymddatodiad protein.
- Gall brechlynnau gynyddu treuliadwyedd porthiant.
- Yn gwella ansawdd eplesiad, mae ychwanegyn yn hanfodol pan fo amodau gwael i wneud silwair gyda siwgr isel posib, deunydd sych isel, nitrogen uchel a lefelau isel o facteria.
- Peidiwch â meddwl am ddefnyddio ychwanegyn fel polisi yswiriant yn erbyn gwneud silwair gwael! Sicrhewch fod y cnwd gystal ag y gall fod cyn iddo fynd i'r gladdfa neu ei fyrnu - y DS iawn (wedi gwywo 18-24a), y gwerth Treuliadwyedd iawn (siwgr); a'i fod wedi ei silweirio'n gywir.

Sut i ddewis ychwanegyn?

- Edrychwch ar yr ymchwil annibynnol ar gnydau tebyg i'ch rhai chi.
- Defnyddiwch ychwanegyn sy'n cwrdd â chategori'r Cynllun Cymeradwyo Ychwanegion Porthiant (FAAS) sy'n berthnasol i'ch cnwd chi.
- Edrychwch yn rheolaidd yn y wasg amaethyddol am y newyddion diweddaraf am ychwanegion porthiant. Cyn bo hir, bydd cynllun cloriannu ar gael gan yr UE i'r holl ychwanegion.

Mathau o ychwanegion

<i>Brechlynnau</i>	: Bacteria
<i>Asidau a Halwynau</i>	: Asid Fformig
<i>Amsugnwyr</i>	: Pwlp Betys Siwgr
<i>Siwgrau</i>	: Molases
<i>Ensymau</i>	: Seliwlos/amylas

Defnyddiwch y rhai a gymeradwyir gan y *Cynllun Cymeradwyo Ychwanegion Porthiant UKASTA* a seiliwyd ar ganlyniadau profion anifeiliaid a seilo.

Gellir cymeradwyo cynnyrch ar gyfer un neu'r holl categorïau:

- gwella eplesiad
- cynnal sefydlogrwydd aerobig
- lleihau elifiant
- lleihau colledion silweirio
- gwella cymeriant gwirfoddol
- gwella treuliadwyedd
- cynyddu effeithlonrwydd defnyddio ynni
- mwy o gynnydd mewn pwysau byw a chynnyrch llaeth

- Mae *Asid Fformig* yn lleihau pH a gall wella treuliadwyedd, cymeriant a pherfformiad gwartheg.
- Gall *Pwlp Betys Siwgr* helpu i gadw elifiant.
- Mae *Molases* yn darparu siwgrau ychwanegol i facteria sy'n digwydd yn naturiol yn y silwair ond yn rhoi ymatebiad eplesu is na asid fformig.
- *Brechlynnau* - maent yn ychwanegu bacteria i yrru eplesiad asid lactig o'r holl siwgrau, gan gynnwys fructans, yn rhoi gostyngiad pH cyflym ac yn lleihau ymddatod protein gan enzymau.
- *Ensymau* - yn torri walïau celloedd i lawr i gynyddu'r swbstrad i eplesiad bacteriol.

Defnyddio brechlynnau

Iddynt fod yn effeithiol, mae brechlynnau angen cyflenwad digonol o WSC (siwgrau) yn y cnwd wrth ei gynaeafu ac mae angen i'r brechlyn ddominyddu'r eplesiad; rhowch gynnrych sy'n cynnwys o leiaf miliwn bygiau/g o wair a silweiriwyd.

- Cymysgwch y cynnyrch yn drylwyr drwy'r gwair; mae hyn yn bwysig os ydych yn defnyddio symiau bychain e.e. 500ml fesul 1000kg o wair.
- Osgowch ddefnyddio dŵr tap wedi ei glorineiddio ar ben brechlynnau.
- Chwistrellwch ar y glastir pan fyddwch yn byrnu neu fel mae'r cnwd yn mynd drwy'r cynaeafwr.
- Cadwch frechlynnau mewn lle tywyll oer - mae'n organeb byw ac mae bod yn agored i wres, golau neu awyr yn gostwng nifer y bacteria byw
- Mae brechlynnau a sychwyd drwy rewi yn cymryd mwy o amser i adfer ac i ddechrau gweithio na'r math parod.

Dengys ymchwil IGER fod cynnydd o 26% mewn pwysau byw bustych a gafodd silwair gyda brechlyn, o'i gymharu gyda silwair heb ei drin.

Dylid ychwanegu brechlyn i feillion coch bob amser; mae swm y nitrogen (protein) a gedwir mewn ŵyn a borthwyd ar silwair efo brechlyn yn 33% yn fwy na'r rhai a borthwyd ar silwair meillion coch heb ei drin. Mae'r nitrogen yma ar gael i dyfiant cynhyrchiol yn hytrach na'i 'wastraffu' fel wrin ac mae hyn hefyd yn well i'r amgylchedd.

RHAGOR O WYBODAETH

Darllen: Atodolion Farmers Weekly/Dairy Farmer Forage
Silage; J.M Wilkinson (Chalcombe Publications, ISBN 0948617500)

Gwefan: <http://www.iger.bbsrc.ac.uk/practice/GTT/gdc.htm>

Cysylltwch â: Dr Heather McCalman, Rheolwr, IGER/GDC, Plas Gogerddan, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3EB Rhif Ffôn: 01970 823026/823058, Ffacs: 01970 828357 neu e-bost: heather.mccalman@bbsrc.ac.uk